



O'r Gymraeg i'r Saesneg

Datblygu Sgiliau Darllen Saesneg

Canllaw i athrawon sy'n cyflwyno darllen Saesneg i blant sydd eisoes ar eu taith o ddysgu darllen yn Gymraeg.

Mae plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dysgu darllen yn Gymraeg yn gyntaf, ac yn gwneud cynnydd cyflym oherwydd bod y system sillafu yn gyson ac yn rhagweladwy. Pan fyddant yn dechrau darllen yn Saesneg, fel arfer ym Mlwyddyn 2 neu 3, maent yn dod ar draws system sy'n llawer llai cyson. Nid yw'r plant yma yn dysgu darllen am y tro cyntaf. Maent eisoes yn dod â gwybodaeth a phrofiad o ddysgu darllen yn Gymraeg, ac ni ddylid eu haddysgu fel pe baent yn dechrau o'r newydd. Yr hyn sydd ei angen arnynt yw dealltwriaeth glir o'r hyn y maent eisoes yn ei wybod, yr hyn sy'n wahanol yn Saesneg, a'r hyn sy'n newydd iddynt.

Beth sy'n trosglwyddo, beth sy'n wahanol a beth sy'n newydd

I blant sydd eisoes yn darllen Cymraeg, gellir rhannu darllen Saesneg yn dri chategori. Dylai'r pwyslais fod ar yr ail a'r trydydd categori.

1

Trosglwyddo'n syth

Mae'r rhain yn gweithio yn yr un ffordd yn y ddwy iaith. Nid oes angen eu haddysgu, dim ond eu gwirio'n gyflym.

b d h j l m n p t r
ng ph ff

a'r llafariad

a e i o

o fewn geiriau byr.

2

Llythrennau cyfarwydd, seiniau gwahanol

Dyma lle mae'r camgymeriadau'n digwydd.

f ff dd ll ch th s c
g u w y

a'r rhan fwyaf o gyfuniadau llafariad, gan gynnwys:

ai ei au aw ew ow
oe ou

3

Beth sy'n newydd

Does dim byd tebyg yn Gymraeg.

k q v x z

llythrennau tawel, llythyren ar ddiwedd gair sy'n newid llafariad, a chyfuniadau llafariad Saesneg

ee ea oo oa igh sh

a'r ffaith y gall yr un sain gael ei sillafu mewn sawl ffordd.



Mae sillafu Cymraeg yn seiliedig i raddau helaeth ar yr egwyddor o un llythyren, un sain. Os yw plentyn yn gwybod yr wyddor Gymraeg, gall ddarllen bron unrhyw air Cymraeg wrth ei weld, hyd yn oed os nad yw wedi gweld y gair o'r blaen neu'n gwybod beth mae'n ei olygu. Mae hon yn sgil werthfawr – ac mae'n arfer da i'r plentyn fod wedi'i datblygu.

Ond mae Saesneg yn wahanol mewn pedair ffordd bwysig. Nid yw'r un o'r pethau hyn yn digwydd yn Gymraeg, felly nid yw'r plentyn yn gwneud camgymeriad diofal pan fydd yn darllen **name** fel petai'n odli â **ham**. Mae'n defnyddio strategaeth sydd wedi gweithio iddo o'r blaen wrth ddarllen yn Gymraeg.

Gall llythyren fod yn dawel

knee

write

lamb

Gall llythyren ar ddiwedd gair newid sain llafariad yng nghanol y gair

hop → hope

man → mane

Gall yr un sain gael ei sillafu mewn sawl ffordd

a a-e ay ai ei

eigh ea ey

Gall yr un sillafiad gynrychioli mwy nag un sain

out

you

though

Y newyddion da

Mae'r sgiliau sylfaenol eisoes ganddynt. Maen nhw'n gwybod sut i gyfuno seiniau, rhannu geiriau'n seiniau, gwrandao am seiniau mewn geiriau a deall bod y testun ar y dudalen yn cynrychioli iaith lafar. Yr hyn sydd angen newid yw eu disgwyliad o sut mae darllen Saesneg yn gweithio. Mae hynny'n dasg llawer llai na dysgu plentyn sut i ddarllen o'r dechrau.



Syniadau yw'r rhain yn hytrach na phethau penodol. Mae angen enwi ac egluro pob un cyn y bydd y sillafiadau sy'n dibynnu arnynt yn gwneud synnwyr.

1 Llythrennau tawel

Yn Gymraeg, rydyn ni'n gallu dibynnu ar y llythrennau i roi'r sŵn rydyn ni'n ei ddisgwyl. Nid felly mae hi yn Saesneg. Mae llythrennau tawel yn digwydd mewn llawer o eiriau cyffredin, fel **knee, write, lamb, half, night, comb, island** a **castle**. Mae angen i blant ddeall yn gynnar nad yw pob llythyren mewn gair yn gwneud sŵn. Fel arall, gallan nhw feddwl bod llythyren dawel yn gamgymeriad, yn hytrach na deall bod hon yn rhan o'r ffordd mae Saesneg yn gweithio. Yn Monster Phonics, mae'r llythrennau tawel yn **wyn** ac yn perthyn i'r **Silent Monsters**. Mae hyn yn rhoi ffordd syml i'r dosbarth siarad am y syniad, yn hytrach na gorfod cofio rhestr o eiriau.

2 Gall llythyren ar ddiwedd gair newid y llafariad yn y canol

Mae Cymraeg yn dangos llafariad hir drwy roi to bach arni neu drwy ble mae'r llafariad yn sefyll yn y gair. Nid yw byth yn defnyddio llythyren ar ddiwedd gair i wneud hyn. Felly, mae'r syniad bod llythyren ar ddiwedd gair yn newid sain y llafariad, fel y gwahaniaeth rhwng **hop** a **hope** neu **man** a **mane**, yn hollol newydd i blentyn sy'n darllen Cymraeg. Mae'n haeddu gwers ar wahân, yn hytrach na dim ond sôn amdano. Mae hefyd yn un o'r gwersi mwyaf gwerthfawr yn y newid i ddarllen Saesneg, gan ei fod yn agor y drws i bum patrwm llafariad ar unwaith.

3 Yr un sain, sawl ffordd o'i sillafu

Yn Saesneg, mae wyth ffordd wahanol o sillafu sain A hir: **a, a-e, ay, ai, ei, eigh, ea** ac **ey**. Bydd plentyn sydd wedi dysgu darllen yn Gymraeg yn debygol o feddwl mai wyth sain wahanol yw'r rhain. Dyna pam mae lliwiau Monster Phonics mor ddefnyddiol yma – maen nhw'n grwpio'r sillafiadau gwahanol o dan yr un sain. Mae gweld wyth sillafiad mewn coch, o dan yr un cymeriad, yn dangos hynny ar unwaith mewn ffordd na all rhestr ei wneud.

4 Geiriau y mae'n rhaid eu dysgu ar gof

Yn Gymraeg, prin iawn yw'r geiriau afreolaidd, felly mae plant sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn dod i'r ysgol heb y cysyniad o air na ellir ei ddarllen drwy gyfuno'r seiniau. Mae **the, was, said, one, two, who, come, some, there, their, friend** a **people** ymhlith y geiriau mwyaf cyffredin yn Saesneg, ac nid yw'r un ohonynt yn dilyn y patrwm arferol. Mae'r rhain yn eiriau **aur** yn Monster Phonics ac maen nhw'n perthyn i **Tricky**. Dysgwch y syniad cyn y geiriau, neu bydd y plentyn yn parhau i geisio eu darllen drwy gyfuno'r seiniau ac yn meddwl ei fod wedi gwneud camgymeriad.

5 Ble mae'r pwyslais

Yn Gymraeg, mae'r pwyslais bron bob amser ar y sillaf olaf ond un. Yn Saesneg, gall y pwyslais symud, ac mae sillafau di-bwyslais yn aml yn troi'n sain wan fel *"uh"*, y gellir ei sillafu ag unrhyw llafariad: **about, teacher, doctor, pencil**. Mae hyn yn bwysicach wrth ddarllen geiriau hirach, ond mae'n helpu i egluro pam y gall plentyn ddarllen gair hir yn gywir heb ei adnabod ar unwaith.



Asesiad Cychwynnol

Monster Phonics Online Assessment Tracker

1

Cyn dechrau, defnyddiwch y **Yearly Assessment** ar y Monster Phonics Assessment Tracker i nodi unrhyw fylchau yng ngwybodaeth ffoneg y disgyblion, gan gynnwys eu gallu i segmentu a chyfuno seiniau i ddarllen geiriau.

2

Defnyddiwch y **Summary Reports** a'r **Heatmap** i weld pa seiniau sydd angen eu haddysgu neu eu hatgyfnerthu.

3

Mae Monster Phonics yn rhaglen ffoneg **dosbarth cyfan**. Felly, defnyddiwch y data i benderfynu ar y man cychwyn gorau i'r dosbarth, gan ddefnyddio barn broffesiynol yr athro i nodi unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Man Cychwyn yn ôl Blwyddyn

Blwyddyn 3	Yearly Assessment – Cam A
Blwyddyn 4	Dechrau gyda Cham A . Os yw'r dosbarth yn gadarn yng Ngham A, symud ymlaen i Cam B .
Blwyddyn 5	Defnyddio'r Yearly Assessment a barn broffesiynol yr athro i benderfynu rhwng Cam B neu Gam C fel man cychwyn.
Blwyddyn 6	Os nad yw rhai disgyblion yn gadarn yn eu gwybodaeth ffoneg, defnyddiwch Yearly Assessment – Cam C i nodi'r bylchau a thargedu'r cymorth.

Parhau i wirio

Bydd yr Ongoing Assessments sydd wedi'u cynllunio o fewn y rhaglen yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i wirio cynnydd y dosbarth a sicrhau bod y disgyblion ar y trywydd iawn. Bydd canlyniadau'r asesiadau yma yn helpu'r athro i nodi unrhyw fylchau sy'n parhau ac i addasu'r addysgu yn ôl yr angen.

Cam A

Ongoing Assessments ▶

Termly Assessments* ▶

Yearly Assessments* ▶

Cam B

Ongoing Assessments ▶

Termly Assessments* ▶

Yearly Assessments* ▶

Phonics Screen Check ▶

Cam C

Ongoing Assessments ▶


Termly Assessments* ▶

Yearly Assessments* ▶

Defnyddio'r Heatmap



Dylid defnyddio'r Yearly Assessment, y Assessment Tracker, y Summary Reports a'r Heatmap i sicrhau bod yr addysgu dosbarth cyfan yn dechrau ar y cam mwyaf priodol. Dylid defnyddio barn broffesiynol yr athro hefyd i sicrhau bod unrhyw fylchau unigol yn cael eu hadnabod a bod y disgyblion hynny'n cael y cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt.



Enghraifft o Heatmap Yearly Assessment (Cam A). Mae'r sgwariau pinc yn dangos y seiniau nad yw disgybl yn gadarn ynddynt eto.

Addysgu'r hyn sydd ei angen ar y dosbarth



Dylid edrych ar y Heatmap i nodi pa seiniau sydd angen eu haddysgu neu eu hatgyfnerthu. Er enghraifft, yn y Heatmap uchod, gellir gweld bod nifer o ddisgyblion yn ansicr gyda'r sain 'i'. Felly, byddai'r addysgu yn dechrau gyda'r sain 'i', cyn symud ymlaen at y sain nesaf sydd angen sylw, er enghraifft 'k', ac yna 'ck'. Mae hwn yn golygu bod modd ymateb yn hyblyg i anghenion y dosbarth, gan flaenoriaethu'r seiniau sydd angen eu hatgyfnerthu, yn hytrach na dilyn dilyniant y map yn rhy gaeth. Mae hyn yn sicrhau bod yr addysgu'n canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen fwyaf ar y disgyblion, gan gefnogi cynnydd cyflymach a mwy effeithiol. Ar ôl addysgu'r seiniau a nodwyd fel blaenoriaeth, dylid adolygu cynnydd y disgyblion a defnyddio'r data asesu i benderfynu ar y cam nesaf.

Sut mae lliwiau Monster Phonics yn helpu



Mae'r lliwiau'n cyd-fynd yn agos iawn â'r newidiadau sy'n bodoli wrth ddechrau darllen Saesneg. Mae'r Black Cats yn cynrychioli'r rhan y mae'r plentyn eisoes yn ei gwybod. Mae'r tri lliw sy'n dilyn yn cynrychioli'r tri syniad newydd. Mae'r saith cymeriad, gyda'u lliwiau eu hunain, yn cynrychioli'r gwahanol batrymau llafariad hir. Dyma brif ran yr addysgu, a dyma lle mae grwpio'r sillafiadau yn ôl sain yn fwyaf defnyddiol.

Cymeriad	Beth mae'n ei gynnwys	Nodiadau i ddosbarth cyfrwng Cymraeg
 The Black Cats	Llythrennau'r wyddor a'r cyfuniadau cytseiniaid	Y rhan fwyaf eisoes yn gyfarwydd. Defnyddiwch yr Assessment Tracker i nodi unrhyw fylchau.
 Silent Monsters	Llythrennau nad ydynt yn gwneud sŵn	Mae un wers yn ddigon i leihau'r math yma o ddryswch.
 Tricky	Sillafiadau sy'n gwneud sain wahanol i'r sain ddisgwyliedig	Dyma'r geiriau mwyaf cyffredin ar y dudalen.
 Angry Red A	a, a-e, ay, ai, ei, igh, ea, ey	Cyflwynwch y syniad bod llythyren ar ddiwedd gair yn newid sain y llafariad yma (split digraph).
 Green Froggy	e, y, ee, ea, ie, ey, ei, i, e-e, i-e	Sylwch fod ea ac ei yn ymddangos yma ac yn y grŵp coch.
 Yellow I	i, i-e, y, igh, ie, y-e	Mae igh yn gwbl newydd, ond yn rheolaidd ac yn hawdd ei addysgu.
 Miss Oh No	o, o-e, oa, ow, oe	Tynnwch sylw at y gwahaniaeth rhwng ow yma ac ow yn brown.
 U-Hoo	u, u-e, ew, ue, eu	Mae plant yn aml yn darllen new fel petai'n odli â tew.
 Cool Blue	u, o, u-e, oo, ew, ue, ou, ui, o-e, eu	Dyma'r grŵp mwyaf, a'r un lle mae'r lliwiau'n fwyaf defnyddiol.
 Brown Owl	ow, ou	Addysgwch hwn ochr yn ochr â Miss Oh No, fel bod y ddwy ffordd o ddefnyddio ow yn cael eu gwahaniaethu'n glir.

Defnyddiwch yr Heatmap i benderfynu pa seiniau sydd angen eu haddysgu gyntaf.

Y chwe rhes gyntaf sy'n achosi'r mwyaf o drafferthion. Mae'r gweddill yn syml.

Llythyren	Yn Gymraeg	Yn Saesneg	Beth i'w addysgu
f	v, fel yn <i>afon</i> a <i>fi</i>	f, fel yn fan a leaf	Y newid pwysicaf. Dysgwch bod yr f Saesneg yn cynrychioli sain ff Gymraeg.
ff	f, fel yn <i>ffordd</i>	f, fel yn cliff a off	Yr un sain yn y ddwy iaith, ond anaml iawn y defnyddir ff ar ddechrau gair yn Saesneg. Defnyddir f sengl ar ddechrau gair.
dd	y sŵn yn <i>dydd</i>	d, fel yn ladder a add	Yn Saesneg, mae dd fel arfer yn cynrychioli d dwbl. Mae sain Gymraeg dd yn cael ei chynrychioli gan th yn Saesneg.
ll	sain ll Gymraeg fel yn <i>llyfr</i>	l, fel yn bell a hill	Yn Saesneg, mae ll yn cynrychioli l dwbl. Nid yw sain Gymraeg ll yn bodoli yn Saesneg.
ch	ch fel yn <i>bach</i>	ch, fel yn chip a lunch	Sillafiad newydd.
th	sain th fel yn <i>beth</i>	dwyrain: think a this	Mae th yn Saesneg yn cynrychioli dwyrain sydd hefyd i'w cael yn y Gymraeg: th a dd. Mae'r sain sy'n cyfateb i dd Gymraeg yn gyffredin mewn geiriau fel the, that, there a mother, felly bydd plant yn dod ar ei thraws yn aml.
c	k bob amser, fel yn <i>cath</i>	k yn cat , ond s yn city a ice	Mae gan c ail swydd: mae'n cynrychioli s cyn e, i ac y.
g	sain galed bob amser, fel yn <i>gardd</i>	sain galed yn got , ond sain feddal yn gem ac giant	Mae gan g ail swydd, yn yr un ffordd â c.
s	s bob amser, fel yn <i>sut</i>	s yn sit , ond z yn is , was , dogs , rose	Mae hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae sain z yn gyffredin mewn geiriau amllder uchel fel was ac is.
r	r wedi'i rollo, fel yn <i>mawr</i>	r heb ei rollo, ac yn aml nid yw'n cael ei ynganu ar ôl llafariad	Nid yw hyn yn effeithio ar ddatgodiad. Fodd bynnag, mae'n werth tynnu sylw at hyn mewn geiriau fel car, her a bird, fel nad yw'r plentyn yn disgwyl clywed y sain r.
rh	sain r ddi-lais, fel yn <i>rhedeg</i>	r, fel yn rhyme a rhino	Nid yw'r h yn cael ei ynganu. Mae hwn yn enghraifft ddefnyddiol gyntaf o lythyren dawel.
si	sh, fel yn <i>siop</i>	sh, fel yn ship	Mae'r sain eisoes yn gyfarwydd. Dim ond y sillafiad sy'n newydd.
b d h j l m n p t ng ph	fel y disgwyl	yr un peth	Gwiriwch unwaith a symud ymlaen.



Llythyren	Yn Gymraeg	Yn Saesneg	Beth fydd y plentyn yn ei wneud
a	fel yn <i>cath</i>	fel yn cat	Yn ei ddarllen yn gywir. Yn nes ymlaen, bydd yn dysgu bod a hefyd yn gallu cynrychioli sain A hir fel yn table a name .
e	fel yn <i>pen</i>	fel yn pen	Yn ei ddarllen yn gywir. Mae Saesneg hefyd yn gadael e yn dawel ar ddiwedd gair, sy'n newydd.
i	fel yn <i>dim</i>	fel yn sit	Yn gywir gan amlaf. Mae Saesneg hefyd yn defnyddio i ar gyfer sain I hir mewn find a mind .
o	fel yn <i>coch</i>	fel yn hot	Yn ei ddarllen yn gywir. Mae Saesneg hefyd yn defnyddio o ar gyfer sain O hir mewn go a no .
u	yr u Gymraeg, sy'n debyg i i	fel yn up a cup	Yn darllen cup fel kip. Addysgwch hwn yn gynnar ac yn glir.
w	llafariad, fel yn <i>cwm</i> a <i>bws</i>	cytsain, fel yn win a water	Gall geisio darllen win fel gair â dwy lafariad. Mae'n bwysig iddynt ddeall nad llafariad yw w yma, ond cytsain.
y	yr y Gymraeg, fel yn <i>dyn</i> ac <i>yn</i>	cytsain yn yes , a llafariad yn happy ac my	Mae'n achosi dryswch. Mae y yn gwneud tair swydd yn Saesneg, ac nid yw'r un ohonynt yr un fath â'r y Gymraeg.

Y llythrennau nad yw'r Gymraeg yn eu defnyddio

Mae dau o'r rhain yn llythrennau y mae'r plentyn eisoes yn gyfarwydd â nhw, ond maen nhw'n cael eu galw'n rhywbeth gwahanol yn Saesneg. Felly, dylai'r rhain fod yn hawdd i'w cyflwyno.

k

fel yn **kit**

HAWDD EI GYFLWYNO

Dyma'r c Gymraeg. Yr un sain, ond sillafiad gwahanol.

v

fel yn **van**

HAWDD EI GYFLWYNO

Dyma'r f Gymraeg. Yr un sain, ac mae hyn yn egluro pam mae f yn Saesneg yn wahanol.

z

fel yn **zip**

Sain newydd, ac mae s Saesneg hefyd yn gallu cynrychioli'r sain yma.

x

fel yn **box**

Un llythyren, dwy sain – k a s gyda'i gilydd. Syniad newydd i'r plant.

q

fel yn **queen**

Nid yw q byth yn ymddangos heb u ar ei hôl. Gyda'i gilydd, maen nhw'n cynrychioli'r sain kw.



Dyma'r rhan fwyaf heriol o'r newid o Gymraeg i Saesneg, gan fod y cyfuniadau yma yn edrych yn gyfarwydd iawn, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hynganu'n wahanol. Mae plentyn sy'n darllen Cymraeg yn hyderus yn debygol o'u darllen yn gyflym, heb stopio i wirio.

Cyfuniad	Gair Cymraeg	Gair Saesneg	Beth sy'n digwydd
ai	<i>gwaith</i>	rain	Mae'r plentyn yn darllen rain fel pe bai'n odli â mine . Cywirwch hwn yn gyntaf.
ae	<i>maes</i>	Prin y mae'n ymddangos yn Saesneg	Prin y mae'n ymddangos yn Saesneg. Does dim angen ei addysgu.
au	<i>dau, pethau</i>	August, because	Yn wahanol yn y ddwy iaith. Yn Ne Cymru, mae'r au ar ddiwedd gair hefyd yn newid wrth siarad, sy'n gallu gwneud pethau'n fwy dryslyd.
aw	<i>llaw</i>	saw, claw	Mae'r plentyn yn darllen saw fel pe bai'n odli â cow .
ei	<i>ceir</i>	vein, ceiling	Mae ei yn Saesneg yn cynrychioli naill ai sain A hir neu sain E hir, ac nid yw'r un ohonynt yr un fath â'r sain Gymraeg.
eu	<i>teulu</i>	Europe	Anaml y mae'n ymddangos yn Saesneg, felly nid yw'n flaenoriaeth i'w addysgu.
ew	<i>tew</i>	new, grew, few	Mae'r plentyn yn darllen new fel pe bai'n odli â'r gair Cymraeg <i>tew</i> .
ow	<i>trawch</i>	cow, ac hefyd snow	Dwy sain Saesneg, ac nid yw'r un ohonynt yn sain Gymraeg. Mae'n digwydd yn aml, felly mae angen ei addysgu'n drylwyr.
oe	<i>oed, coed</i>	toe, goes	Mae oe yn Saesneg yn cynrychioli'r sain O hir.
ou	<i>cyffrous</i>	out, soup, young	Un sillafiad, tair sain yn Saesneg. Gadewch hwn nes bod y plentyn yn deall bod hyn yn digwydd.
iw uw wy yw	<i>lliw, uwd, wy, byw</i>	Sillafiadau nad ydyn ni'n eu defnyddio yn Saesneg	Newyddion da sy'n werth ei ddweud yn uchel. Fydd y plentyn ddim yn dod ar eu traws eto yn Saesneg.
ee ea oo oa igh sh	<i>nid sillafiadau Cymraeg</i>	see, sea, moon, boat, night, ship	Yn hollol newydd ac yn hollol reolaidd. Dyma'r rhai hawsaf i'w haddysgu.



Yn y rhan fwyaf o'n hysgolion cyfrwng Cymraeg, caiff Monster Phonics ei addysgu'n ddyddiol ym **Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4** fel sesiwn ffoneg dosbarth cyfan. Ar ddechrau **Blwyddyn 5**, gall fod yn briodol parhau â sesiynau Monster Phonics er mwyn sicrhau bod gan y disgyblion sylfaen gadarn mewn ffoneg cyn symud ymlaen. Bydd Monster Phonics yn parhau i gael ei ddefnyddio gyda disgyblion lle mae'r asesiadau'n dangos bod angen cryfhau eu gwybodaeth ffoneg. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion ym Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn dilyn **Superhero Spelling**.

Mae Monster Phonics yn deall yr heriau sy'n wynebu ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth gyflwyno Saesneg ym Blwyddyn 3. Rydym yma i gefnogi ysgolion sydd eisoes yn defnyddio Monster Phonics, yn ogystal â'r rhai sy'n ystyried ei gyflwyno, gan helpu i adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer darllen a sillafu yn Saesneg a chefnogi cynnydd pob disgybl.

Cysylltwch â ni



Mae Monster Phonics yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd a thu hwnt. Os hoffech drafod sut mae'r broses o drosglwyddo i Monster Phonics yn mynd yn eich ysgol, neu drefnu hyfforddiant yn Gymraeg, cysylltwch â ni.

Lucy Werrett

Arweinydd Llwyddiant Ysgolion Cymru

lucy@monsterphonics.wales

Mae croeso i chi gysylltu yn Gymraeg.